# Adroddiad Blynyddol Cynghorydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (BCBC)

**Y Cynghorydd T J Thomas**

**Ward: Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre**

**Plaid: Annibynnol / Annibynwyr Sir Pen-y-bont ar Ogwr**

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy ngweithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Ebrill 2023**.** Fe'i darperir er gwybodaeth yr holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Barn y Cynghorydd yw'r un a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

**<u>Rôl a Chyfrifoldebau</u>**

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli Llansanffraid-ar-Ogwr ac Ynysawdre ar 5 Mai 2022. Rwyf wedi ymgymryd ag amrywiaeth o rolau yn y Cyngor eleni gan gynnwys cael fy mhenodi'n aelod o sawl pwyllgor.

Rwyf wedi cefnogi trigolion fy ward ar amrywiaeth o faterion ac wedi codi nifer o ymholiadau cyfansoddol yn ffurfiol gyda'r Cyngor a sefydliadau eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael yn anffurfiol â nifer o faterion eraill yr ydych wedi gofyn i mi eich helpu chi i'w datrys.

Er mwyn fy ngalluogi i gyflawni fy rôl yn gynrychiolydd arnoch, rwyf wedi bod yn bresennol mewn nifer o Weithgareddau Datblygu Aelodau sydd wedi fy helpu i sicrhau y cynhelir fy ngwybodaeth am faterion cenedlaethol a lleol sy'n effeithio ar y Cyngor a'm ward.

Mae rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau ar gael drwy ddefnyddio'r ddolen hon:
Cynghorydd Tim Thomas

**<u>Gweithgarwch yn yr Etholaeth</u>**

Ar wahân i gyflwyno atgyfeiriadau gyda CBS Pen-y-bont ar Ogwr, rwy'n mynd yn rheolaidd i gyfarfodydd misol PACT ar gyfer cymuned Sarn, rwy'n mynychu digwyddiadau 'Paned gyda Phlismon' ac rwy'n mynychu patrolau gydag aelodau'r heddlu lleol a swyddogion tai o'r Cymoedd i'r Arfordir.

Rwy'n delio â llawer o ymholiadau ar y cyfryngau cymdeithasol yn ogystal ag e-byst, galwadau ffôn a chyfarfodydd wyneb yn wyneb â phreswylwyr. Rwyf hefyd yn cysylltu â lloches digartrefedd leol i gyfleu unrhyw bryderon a allai fod gan y gymuned leol.

Yn ddiweddar, rwyf wedi cadeirio dau gyfarfod cyhoeddus ar safle hydrogen arfaethedig, wedi cynnal cyfarfodydd ynghylch trosglwyddo asedau cymunedol Parc Pandy a chynorthwyo mewn grŵp casglu sbwriel misol ar ystâd Tyn-y-coed yn Sarn.

Rwyf wedi bod yn ymgyrchu gyda thrigolion dros broblemau parcio mewn ysgolion lleol, problemau diogelwch ffyrdd ar yr A4061 a'r A4065, problemau gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol, cefnogi'r gwaith o gynnal a chadw Tir Comin Sarn a Brynmenyn, digartrefedd a phryderon tai yn ogystal â gweithio gyda swyddogion i wella diogelwch a darpariaeth parciau chwarae lleol. Yn olaf, rwyf wedi cefnogi preswylwyr i adolygu ceisiadau cynllunio a chefnogi preswylwyr a busnesau lleol gyda'u cynlluniau yn ogystal â llawer mwy.

**<u>Mentrau a Gweithgareddau Arbennig</u>**

Dros y 12 mis diwethaf rwyf wedi bod yn gadeirydd ar y Panel Ymchwil a Gwerthuso Cyllideb (BREP) yn ogystal â'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, sydd hefyd wedi cynnwys dau weithgor sy'n edrych ar y system atgyfeirio aelodau a chyfansoddiad y Cyngor.

Rwy'n Gynghorydd Cymunedol ar Gyngor Cymuned Llansanffraid-ar-Ogwr a Chyngor Cymuned Ynysawdre. Rwyf hefyd yn aelod o Gymdeithas Gymunedol Tondu ac Abercynffig, sy'n edrych ar y ffyrdd y gall trigolion wella'r ardal.

Rwyf wedi cefnogi'r clwb pêl-droed lleol ar sawl prosiect gan gynnwys dod o hyd i grantiau ar gyfer pêl-droed iau ac ar gyfer pêl-droed oedolion i'r Tondu Robins. Cefnogais hefyd fynediad Clwb Bechgyn a Merched Abercynffig i gyllid grant ar gyfer prosiectau yr oeddent yn eu dilyn.

Rwyf wedi gweithio gyda'r Ymddiriedolaeth Natur ar sawl prosiect i wella mannau gwyrdd yn y gymuned yn ogystal â phrosiectau tebyg a gynhelir gan y cyngor cymuned i wella adfywiad mannau cyhoeddus.

Rwyf hefyd wedi bod yn cysylltu â Barratt Homes ar sawl mater ar ystâd Tyn-y-Coed wrth i'r ardal ddisgwyl cael ei mabwysiadu gan yr awdurdod.

**<u>Gweithgareddau/Materion Eraill</u>**

Rwy'n llywodraethwr AALl ar Ysgol Gynradd Brynmenyn a Choleg Cymunedol Y Dderwen ac wedi mynd i sawl perfformiad a digwyddiad ysgol.

Cefnogais y cyngor cymuned mewn cyngerdd Dydd Gŵyl Dewi, lle rhoesom fynediad am ddim i bobl oedrannus o gartrefi gofal lleol. Rwyf hefyd wedi gweithredu cyfleuster newydd i'r cyngor cymuned weithredu ar ddeisebau, strategaeth adfywio pum mlynedd a gweithdrefnau gweinyddol gwell.

Rwyf hefyd wedi cefnogi darparwyr tai cymdeithasol mewn prosiectau adfywio y mae tenantiaid wedi bod yn rhan ohonynt gan gynnwys darparu meinciau a mannau gwyrdd newydd.

**Y Cynghorydd T J Thomas** **Dyddiad: 17/06/2023**